Ymgynghoriad Teithio Llesol Arberth

Ebrill 2025

# YMGYNGHORIAD TEITHIO LLESOL ARBERTH

# Hysbysiad

Mae’r ddogfen hon a’i chynnwys wedi’u paratoi ac wedi’u bwriadu’n unig fel gwybodaeth i’w defnyddio mewn perthynas ag Ymgynghoriad Teithio Llesol Arberth.

Nid yw AtkinsRéalis UK Limited yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb unrhyw barti arall mewn perthynas â’r ddogfen hon a/neu ei chynnwys gan gynnwys yr hyn sy’n deillio ohoni neu mewn cysylltiad â hi.

Mae gan y ddogfen hon 34 tudalen gan gynnwys y clawr.

## Hanes dogfen

Teitl y ddogfen: Ymgynghoriad Teithio Llesol Arberth

Cyfeirnod y ddogfen: 2.0

| Adolygiad | Disgrifiad o'r pwrpas | Tarddiad | Gwiriwyd | Adolygwyd | Awdurdodwyd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.0 | Dosbarthiad drafft i'r cleient | HN/GR | SG | JS | AK | 17/01/25 |
| 2.0 | Dosbarthiad i'r cleient | GR | SG | JS | AK | 11/04/25 |

## Cymeradwyaeth cleient

| | |
|---|---|
| **Cleient** | Cyngor Sir Penfro |
| **Prosiect** | YMGYNGHORIAD TEITHIO LLESOL ARBERTH |
| **Rhif swydd** | 100112556 |
| **Llofnod/dyddiad cleient** | |

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** .......... **5**
1.1 Pwrpas yr adroddiad .......... 5
1.2 Strwythur yr adroddiad .......... 5
**2. Trosolwg o'r prosiect** .......... **6**
2.1 Kiln Park Road .......... 6
2.2 Arberth i Hwlffordd .......... 7
2.3 Jesse Road .......... 8
**3. Dull ymgysylltu** .......... **9**
3.1 Arolwg .......... 9
3.2 Ymgysylltu wyneb yn wyneb .......... 9
**4. Dadansoddiad o ymatebion** .......... **10**
4.1 Arolwg .......... 10
4.1.1 Gwelliannau teithio llesol yn Arberth .......... 10
4.1.2 Kiln Park Road .......... 15
4.1.3 Llwybr aml-ddefnyddwyr o Arberth i Hwlffordd .......... 19
4.1.4 Jesse Road .......... 26
4.1.5 Gwybodaeth ddemograffig .......... 30
**5. Casgliadau o ddadansoddiad** .......... **31**
**6. Camau nesaf** .......... **33**


## Tablau


Tabl 5-1 - Casgliadau o ymatebion i'r arolwg .......... 31


## Ffigurau


Ffigur 2-1 - Llwybr arfaethedig Kiln Park Road .......... 6

Ffigur 2-2 - Dargyfeiriad Cerbydau Nwyddau Trwm .......... 7

Ffigur 2-3 - Llwybr arfaethedig Jesse Road .......... 8

Ffigur 4-1 - A ydych yn cefnogi’r gwelliannau teithio llesol arfaethedig/yn meddwl y bydd y gwelliannau teithio llesol arfaethedig yn welliant i’r gymuned leol? .......... 11

Ffigur 4-2 - Ydych chi'n ymwybodol o'r cysylltiadau rhwydwaith teithio llesol ehangach yn eich ardal? .......... 12

Ffigur 4-3 - Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am feicio yn yr ardal ar hyn o bryd? .......... 13

Ffigur 4-4 - Sut ydych chi neu aelodau o'ch cartref yn teithio i'r gwaith/ysgol ar hyn o bryd? .......... 14

Ffigur 4-5 - A ydych yn cefnogi'r cynnig i greu llwybr cyd-defnydd ar hyd Kiln Park Road? ....................................... 15

Ffigur 4-6 - A ydych yn cefnogi dargyfeiriad cerbydau nwyddau trwm ar hyd y llwybr hwn i osgoi canol tref Arberth? 16

Ffigur 4-7 - Os ydych wedi ateb nac ydw neu'n ansicr i gwestiynau 6 a 7, dywedwch pam wrthym? Teimlad cyffredinol ........................................................................................................................................... 17

Ffigur 4-8 - Yn eich barn chi, pa mor fuddiol fydd y cysylltiad â'r orsaf drenau? ........................................................ 18

Ffigur 4-9 - A fyddai'r llwybr aml-ddefnyddwyr hwn yn eich annog i gerdded neu feicio at ddibenion cymudo/hamdden yn amlach? ........................................................................................................................................... 19

Ffigur 4-10 - Ydych chi'n meddwl y byddai'r cysylltiadau arfaethedig â maes parcio Town Moor yn gwella hygyrchedd i bobl ag anghenion symudedd? ........................................................................................................... 20

Ffigur 4-11 - Hoffech chi weld cyfleusterau storio beiciau ychwanegol ym maes parcio Town Moor? ....................... 21

Ffigur 4-12 - Os ydych wedi ateb nac ydw neu'n ansicr i gwestiynau 10-13, dywedwch pam wrthym? ..................... 22

Ffigur 4-13 - Yn eich barn chi, pa mor fuddiol fyddai'r cysylltiadau arfaethedig â maes parcio Town Moor? ............. 23

Ffigur 4-14 - Yn eich barn chi, pa mor ddigonol yw'r cysylltiadau presennol i faes parcio Town Moor? ..................... 24

Ffigur 4-15 - A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar unrhyw un o'r uchod? .................................... 25

Ffigur 4-16 - Beth yw eich barn am y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i wella'r amodau ar gyfer cerdded, beicio a hygyrchedd yn yr ardal hon? ............................................................................................................ 26

Ffigur 4-17 - Yn eich barn chi, a yw'r newidiadau wedi gwella hygyrchedd i'r ysgol? ................................................ 27

Ffigur 4-18 - Os ydych wedi ateb nac ydw neu'n ansicr, dywedwch pam wrthym? .................................................... 28

Ffigur 4-19 - A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ynghylch y gwaith sydd wedi'i wneud ar Jesse Road? Teimlad cyffredinol ........................................................................................................... 29

Ffigur 4-20 - Pa mor hen ydych chi? ........................................................................................................... 30

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Pwrpas yr adroddiad

Mae Cyngor Sir Penfro (CSP) wedi ymgysylltu i gael adborth ar gynigion llwybrau teithio llesol newydd yn Arberth ac ar y gwaith sydd wedi'i wneud ar Jesse Road. Nod y cynigion yw gwella'r rhwydwaith teithio llesol presennol yn y dref ac fe'u rhestrir isod:

1. Creu llwybr cyd-ddefnyddio 412-metr ar hyd Kiln Park Road.
2. Gweithredu dargyfeiriad ar gyfer cerbydau nwyddau trwm i osgoi canol y dref, fel y gellir parhau i lwytho a dadlwytho'n lleol ac i leddfu tagfeydd.
3. Creu llwybr aml-ddefnyddwyr 6.5 milltir (10km) o Arberth i Hwlffordd.

Yn ogystal â hyn, nod cynllun Jesse Road oedd darparu hygyrchedd gwell i gerddwyr a beicwyr i ac o Ysgol Gynradd Arberth. Wrth i gam cyntaf y gwaith gael ei gwblhau, mae CSP yn ymgymryd ag ymgysylltiad i ddeall effaith y cynllun hyd yn hyn a chasglu adborth ar y llwybr.

Yn yr adroddiad hwn, diffinnir llwybrau cyd-defnydd fel llwybrau sydd wedi'u cynllunio i gynnwys symudiadau defnyddwyr sy'n cerdded, yn olwyno ac yn beicio. Mae llwybrau aml-ddefnyddiwr yn llwybrau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer sawl math o wahanol ddefnyddwyr, gan gynnwys cerddwyr, beicwyr a marchogion, a diffinnir teithio llesol fel ffordd o fynd o gwmpas sy'n cynnwys gweithgaredd corfforol, megis cerdded, beicio neu olwynio.

Ymgymerwyd â'r ymgysylltiad hwn fel rhan o'r ymgysylltu ehangach ar gyfer y gwelliannau teithio llesol ledled Sir Benfro. Roedd ymgysylltiad Arberth yn cynnwys arolwg cymunedol, gweithdy ymgynghori cyhoeddus a sesiwn galw heibio. Parhaodd cyfnod yr arolwg am chwe wythnos o ddydd Iau 26ain o Fedi i ddydd Iau 7fed o Dachwedd 2024. Dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus gyda gweithdy ar ddydd Iau 26ain o Fedi, gyda slotiau galw heibio yng Nghanolfan Gymunedol Bloomfield House ar yr adegau canlynol:

- 10:00 – 12:00.
- 13:00 – 16:00.
- 18:30 – 20:00.

Mae'r adroddiad ymgysylltu hwn yn rhoi crynodeb o sut y cynhaliwyd yr ymgysylltiad cyhoeddus a sut y dadansoddwyd yr ymatebion a gafwyd. Cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad hwn, ac amlinelliad o sut y bydd Cyngor Sir Penfro yn ystyried yr ymatebion yng ngham nesaf y prosiect. Mae'r adborth a gafwyd hefyd wedi rhoi mewnwelediadau lleol gwerthfawr i'r cyngor a fydd o fudd i'r prosiect hwn a phrosiectau eraill yn yr ardal leol.

## 1.2 Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad ymgysylltu hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Pennod 2 Trosolwg o'r prosiect**: cyd-destun y prosiect a chrynodeb o ymgysylltu blaenorol.
- **Pennod 3 Dull ymgysylltu:** dulliau ymgysylltu, hyrwyddo a deunyddiau, adborth, dadansoddi a hygyrchedd.
- **Pennod 4 Dadansoddiad o ymatebion:** themâu cyffredin sy'n codi o'r ymgysylltu.
- **Pennod 5 Casgliadau o ddadansoddiad:** canfyddiadau allweddol o'r ymgysylltu a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r adborth a ddadansoddwyd.
- **Pennod 6 Camau nesaf:** mae'n nodi'r camau nesaf yn dilyn ymgysylltu.

# 2. Trosolwg o'r prosiect

Mae CSP yn anelu at greu rhwydwaith cerdded, beicio ac olwyno strategol sy'n galluogi teithio o Arberth i Hwlffordd, a thrwy ganol Arberth, heb ddefnyddio cerbyd; a thrwy hynny lleihau tagfeydd, parcio a phwysau traffig. Bydd annog y newid ymddygiad hwn nid yn unig yn arwain at ffordd iachach o fyw ond bydd hefyd yn ffordd wyrddach a rhatach o deithio.

Nod y cynigion yw:

- Darparu mynediad uniongyrchol o ansawdd uchel i ddefnyddwyr teithio llesol rhwng Arberth a Hwlffordd.
- Gwella diogelwch y rhwydwaith teithio llesol.
- Annog teithio llesol sydd yn gynhwysol a chymdeithasol ar gyfer pob math o daith gan gynnwys twristiaeth, hamdden a theithio i’r ysgol neu waith.
- Creu amgylchedd mwy diogel i feicwyr a cherddwyr.
- Lleihau tagfeydd traffig yng nghanol y dref.

## 2.1 Kiln Park Road

Mae’r bwriad i greu llwybr cyd-ddefnyddio ar hyd Kiln Park Road, tu ôl i’r gwrych presennol, yn anelu at wella ac annog cerdded, beicio ac olwyno wrth darparu gwahaniad oddi wrth gerbydau a gwell cysylltedd rhwng yr ysgol a’r orsaf, fel dangosir yn Ffigur 2-1.

**Ffigur 2-1 - Llwybr arfaethedig Kiln Park Road**




Mae’r seilwaith teithio llesol presennol ar hyd y llwybr hwn yn wael, gyda throedffordd gul ar yr ochr orllewinol a throedffordd ysbeidiol ar yr ochr ddwyreiniol. Mae hyn yn creu 'cyswllt coll' o ran llwybrau teithio llesol ac anghenion hygyrchedd, a chysylltedd gwael rhwng Gorsaf Reilffordd Arberth a Jesse Road. Nod y gwelliannau hefyd yw annog teithio drwy ddulliau cynaliadwy eraill; gwasanaethir Kiln Park Road gan lwybr bws 381, gyda gwasanaeth bob awr rhwng 08:07-18:30, rhwng Hwlffordd a Dinbych-y-pysgod.

Bydd y dargyfeiriad cerbydau nwyddau trwm arfaethedig o amgylch Arberth yn ceisio ailgyfeirio traffig i Kiln Park Road, yn hytrach na thrwy ganol Arberth. Nod y cynlluniau hyn yw cael gwared ar draffig trwodd a lleddfu tagfeydd, ar hyd y B4314 (Templeton) a’r A4075 (Cross Hands), wrth hefyd cadw hygyrchedd ar gyfer traffig lleol a cherbydau nwyddau trwm (i lwytho a dadlwytho) yng nghanol Arberth. Dangosir y llwybrau arfaethedig a’r llwybrau amgen, yn ogystal â rhan Kiln Park Road, yn Ffigur 2-2. Mae angen cynnal astudiaethau dichonoldeb pellach i yrru'r cynllun hwn yn ei flaen, a bydd angen gweithio gyda darparwyr SatNav a Chludwyr er mwyn gweithredu'r llwybr dargyfeirio terfynol.

**Ffigur 2-2 - Dargyfeiriad Cerbydau Nwyddau Trwm**




## 2.2 Arberth i Hwlffordd

Nododd yr ymgynghoriad ar draws Sir Benfro (Commonplace) a gynhaliwyd yn 2018 fod trigolion lleol o blaid llwybr cyd-ddefnyddio, sy'n cysylltu Arberth â Hwlffordd, drwodd i Blackpool Mill a Slebets. Byddai'r rhan arfaethedig o'r llwybr sy'n rhan o'r ymarfer ymgysylltu yn helpu i gwblhau'r cyswllt hwn, sy'n dod i ben ar hyn o bryd yn Blackpool Mill.

Mae'r llwybr presennol yn cysylltu â chanol Arberth ar hyd llwybr ceffylau ac mae'r gwaith diweddar gan Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) ar hyd yr A40 wedi creu llwybr cyd-ddefnyddio sy'n cysylltu Llanddewi Felffry â Redstone Cross. Bydd y rhannau newydd yn cysylltu â chanol Hwlffordd gyda chysylltiadau uniongyrchol â Llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (Llwybr Celtaidd). Ar ôl ei gwblhau, bydd y llwybr yn darparu mynediad uniongyrchol o ansawdd uchel rhwng y ddwy dref. Bydd yn annog teithio llesol sydd yn gynhwysol ac yn gymdeithasol ar gyfer pob math o daith gan gynnwys twristiaeth, hamdden, ysgol a gwaith.

Mae opsiynau ar gyfer parhau â'r rhan o Blackpool Mill yn cael eu harchwilio, gan ddisgwyl defnyddio lonydd, hawliau tramwy cyhoeddus a chefnffyrdd i greu cysylltedd. Cynigir bydd y rhan ymlaen i Hwlffordd yn defnyddio lonydd presennol a strydoedd tawel. Mae'r opsiwn olaf ar gyfer y llwybr cyfan wrthi'n cael ei ddatblygu.

## 2.3 Jesse Road

Mae'r gwaith ar Jesse Road wedi anelu at ddarparu mynediad gwell i gerddwyr a beicwyr i'r ysgol gynradd ac oddi yno. Dangosir y camau gwaith yn Ffigur 2-3, a chwblhawyd cam cyntaf y gwaith, Cam 3, yn haf 2024. Roedd y cam hwn yn canolbwyntio ar flaen yr ysgol ac felly cwblhawyd y gwaith adeiladu dros yr haf (i leihau tarfu). Dechreuodd ail gam y gwaith, Cam 1, ar yr 2ail o Fedi 2024, gan ganolbwyntio ar osod cyrbiau newydd ac haen dreulio ar Barc Springfield. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd cam olaf y gwaith ar Jesse Road (Cam 3) yn dechrau.

Mae'r dyluniadau cychwynnol sydd wedi'u datblygu ar gyfer Cam 2 Jesse Road wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda'r Cyngor Tref a chynghorwyr lleol. Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r Cyngor Tref ar y 3ydd o Orffennaf 2024, a gyda'r cynghorwyr lleol ar y 10fed o Fedi 2024. Mae'r dyluniadau nawr wedi'u datblygu ar gyfer caffael ac adeiladu.

Mae CSP yn casglu adborth ar y gwelliannau hyd yma a'r effaith y maent wedi'i chael ar gerdded, beicio ac olwyno, a hygyrchedd yn yr ardal.

**Ffigur 2-3 - Llwybr arfaethedig Jesse Road**




# 3. Dull ymgysylltu

Diben y rownd hon o ymgysylltu oedd ymgysylltu'n ffurfiol â'r gymuned leol ar y pedwar cynnig ar gyfer gwelliannau teithio llesol newydd, a chasglu adborth ar gynnydd Jesse Road, fel rhan o'r ymgysylltiad ehangach ar gyfer gwelliannau teithio llesol ledled Sir Benfro. Nod yr ymgynghoriad cyhoeddus oedd casglu adborth ar newidiadau arfaethedig, gan gasglu barn ar hygyrchedd a chysylltedd yn Arberth.

## 3.1 Arolwg

Er mwyn deall barn pobl yn well ar sut i fireinio dyluniad y cynllun, datblygodd CSP arolwg a gyhoeddwyd ar-lein a'i hyrwyddo yn y gymuned. Cynhaliwyd yr arolwg ar Microsoft Forms a chafwyd mynediad iddo trwy ddolen o wefan CSP. Roedd copïau papur o'r dyluniadau a'r arolwg, ynghyd â blwch sylwadau, ar gael yng Nghanolfan Gymunedol Bloomfield House. Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg yn y ddau fformat, ac roedd copïau wedi'u postio o'r dyluniadau a'r arolwg ar gael ar gais.

Nod cwestiynau'r arolwg oedd casglu adborth ar y cynlluniau ar wahân. Roedd y cwestiynau'n cynnwys nifer o gwestiynau agored a chaeedig, gyda phob cwestiwn a osodwyd ar gyfer cynigion yn canolbwyntio ar ba mor aml yr oedd unigolion yn teithio ar hyd pob llwybr, a oedd unigolion yn teimlo y byddai'r llwybrau arfaethedig yn gwella hygyrchedd, ac a oeddent yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig.

Cynhaliwyd yr arolwg am gyfnod o chwe wythnos rhwng dydd Iau y 26ain o Fedi a dydd Iau 7fed o Dachwedd 2024.

## 3.2 Ymgysylltu wyneb yn wyneb

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus gyda sesiynau galw heibio ddydd Iau 26 Medi, rhwng 10:00 – 12:00, 13:00 – 16:00 a 18:30 – 20:00 yng Nghanolfan Gymunedol Bloomfield House. Roedd gan bob sesiwn gynrychiolwyr o Gyngor Sir Penfro, i ateb unrhyw gwestiynau a gododd. Roedd ymwelwyr â phob sesiwn galw heibio yn gallu edrych ar gopïau papur o'r dyluniadau, ar fyrddau arddangos, yn y digwyddiad. Cafodd unigolion a fynychodd y sesiynau galw heibio gyfle i lenwi copïau papur o'r arolwg yn ogystal â gadael unrhyw sylwadau ychwanegol drwy'r blwch sylwadau.

Roedd y fersiynau printiedig o'r dyluniadau a'r arolygon papur ar gael yng Nghanolfan Gymunedol Bloomfield House ddydd Iau 7fed o Dachwedd, ac wedi hynny casglwyd a thynnwyd unrhyw gopïau oedd yn weddill.

# 4. Dadansoddiad o ymatebion

## 4.1 Arolwg

Derbyniwyd 64 o ymatebion i'r arolwg hwn trwy ymatebion ar-lein ac ar gopïau papur. Hysbysebwyd yr arolwg ar-lein rhwng dydd Iau 26ain o Fedi a dydd Iau 7fed o Dachwedd 2024.

Mae'n bwysig nodi, er bod 64 o ymatebwyr unigol wedi ateb cwestiynau'r arolwg, yn yr adran ganlynol, mae graffiau a chanddynt dros 64 o ymatebion yn cynnwys ymatebion i nifer o gwestiynau wedi'u cyfuno. Yn ogystal, efallai na fydd canrannau mewn graffiau yn adio i 100% oherwydd mân anghysondebau talgrynnu. Roedd y cwestiynau yn yr arolwg i gyd yn ddewisol i ymatebwyr eu hateb, gan gynnwys y set o gwestiynau *Amdanoch Chi*.

Mae'r holl ymatebion wedi'u hystyried yn adborth yr arolwg.

### 4.1.1 Gwelliannau teithio llesol yn Arberth

Mae Ffigur 4-1 yn dangos yr ymatebion i gwestiynau yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn:

- Cefnogi'r gwelliannau teithio llesol arfaethedig.
- Teimlo bod y gwelliannau teithio llesol arfaethedig yn welliant i'r gymuned leol.

Oherwydd natur y ddau gwestiwn cyntaf mae'r ymatebion wedi'u cyfuno a chafwyd cyfanswm o 127 o ymatebion ar draws y ddau gwestiwn.

**Ffigur 4-1 - A ydych yn cefnogi'r gwelliannau teithio llesol arfaethedig/yn meddwl y bydd y gwelliannau teithio llesol arfaethedig yn welliant i'r gymuned leol?**




Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 61% o'r ymatebion i'r ddau gwestiwn yn ateb 'ydw', i gymharu â 32% yn ateb 'nac ydw'. Roedd 7% o'r ymatebwyr yn 'ansicr' ar y ddau ddatganiad.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn ymwybodol o'r cysylltiadau rhwydwaith teithio llesol ehangach yn eu hardal, ac mae Ffigur 4-2 yn dangos atebion yr ymatebwyr i'r cwestiwn.

**Ffigur 4-2 - Ydych chi'n ymwybodol o'r cysylltiadau rhwydwaith teithio llesol ehangach yn eich ardal?**




Roedd tua dwy treian (66%) yn ymwybodol o'u cysylltiadau rhwydwaith ehangach, tra nad oedd 34%. Er bod mwyafrif yr ymatebwyr wedi ymateb yn gadarnhaol, mae'n amlwg bod cyfle i hybu mwy o ymwybyddiaeth o'r rhwydwaith teithio llesol ehangach yn yr ardal.

Mae Ffigur 4-3 yn dangos pa mor hyderus y mae ymatebwyr yr arolwg yn teimlo am feicio yn yr ardal ar hyn o bryd.

**Ffigur 4-3 - Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am feicio yn yr ardal ar hyn o bryd?**




Dim ond 21% a ddywedodd 'hyderus iawn' neu 'hyderus' i gymharu â 49% a ddywedodd 'ddim yn hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl'. Ymatebodd 31% gyda 'niwtral'. Mae hyn yn dangos, ar hyn o bryd, bod diffyg cyfleoedd ar gyfer beicio diogel yn yr ardal leol, ac, felly, bod angen rhwydwaith beicio diogel, hygyrch yn Arberth ac o gwmpas yr ardal.

Fel y trafodwyd ymhellach yn yr adran ddemograffig yn 4.1.5, mae ymatebwyr wedi'u pwysoli tuag at bobl dros 55 oed (59%) o gymharu â'r rhai dan 55 (36%). Mae ymatebwyr rhwng 65-74 oed yn cyfrif am 23% o'r holl ymatebwyr, tra bod pobl dros 75 oed yn cyfrif am 11% o'r ymatebion. Gall hyn gyfrannu at y teimlad cyffredinol mewn perthynas â Ffigur 4-3 , gan nodi y gall lefelau hyder gael eu heffeithio gan faterion oedran neu iechyd yn hytrach na diffyg diddordeb yn y cynllun.

Mae Ffigur 4-4 yn dangos cyfanswm y rhaniad moddol yn seiliedig ar sut mae ymatebwyr a'u cartrefi fel arfer yn teithio i'r gwaith neu'r ysgol.

**Ffigur 4-4 - Sut ydych chi neu aelodau o'ch cartref yn teithio i'r gwaith/ysgol ar hyn o bryd?**




Yn gyffredinol, gyrru oedd y dull mwyaf poblogaidd o bell ffordd i deithio i'r ysgol/gwaith yn Arberth, yn ffurfio 56% o'r ymatebion. Mae moddau llesol a dulliau 'eraill' yn ffurfio cyfran sylweddol o deithiau, gyda cherdded a beicio yn cyfrif am 20% o'r ymatebion (16% yn cerdded, 4% yn beicio), yr un peth â 'dulliau eraill' ar 20%. Mae hyn yn amlygu'r potensial i wella'r gyfran sy'n teithio gan fodd llesol, gan fod galw yna yn barod, ond ar hyn o bryd teithiau mewn car sy'n dominyddu.

Fel y nodwyd uchod, gallai'r ddibyniaeth ar yrru adlewyrchu'r wybodaeth ddemograffig a drafodwyd ymhellach yn adran 4.1.5, gydag oedran, iechyd neu faterion symudedd yn ffactor sy'n cyfrannu. Er bod Ffigur 4-4 wedi anelu'n uniongyrchol at gasglu gwybodaeth am deithio i'r gwaith neu ysgol, o'r 28 ymateb unigol a dderbyniwyd roedd 26% dros 65 oed ac roedd 19% arall rhwng 55 a 64 oed.

### 4.1.2 Kiln Park Road

Mae Ffigur 4-5 yn amlygu a yw ymatebwyr yn cefnogi’r cynnig i greu llwybr cyd-ddefnyddio ar hyd Kiln Park Road.

**Ffigur 4-5 - A ydych yn cefnogi'r cynnig i greu llwybr cyd-defnydd ar hyd Kiln Park Road?**




Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 65% yn dweud eu bod yn cefnogi’r cynnig, o’i gymharu â dim ond 25% yn dweud nad ydynt, tra bod y 10% arall o ymatebwyr yn ansicr. Mae hyn yn dangos yr awydd am lwybr cyd-ddefnyddio newydd, gwell ar hyd Kiln Park Road.

Mae Ffigur 4-6 yn amlygu a oedd ymatebwyr yn cefnogi dargyfeiriad cerbydau nwyddau trwm ar hyd Kiln Park Road i osgoi canol tref Arberth.

**Ffigur 4-6 - A ydych yn cefnogi dargyfeiriad cerbydau nwyddau trwm ar hyd y llwybr hwn i osgoi canol tref Arberth?**




Roedd yr ymatebion yn gymysg, gyda 48% yn dweud eu bod yn cefnogi'r cynnig, o'i gymharu â 40% yn dweud nad ydynt. Roedd 13% o ymatebwyr yn ansicr. Mae Ffigur 4-7 yn dangos themâu ymatebion (testun rhydd) a amlygwyd gan ymatebwyr pan ofynnwyd iddynt pam eu bod wedi ymateb 'nac ydw', neu 'ansicr' i'r cwestiynau dargyfeirio llwybr cyd-ddefnyddio a cherbydau nwyddau trwm arfaethedig.

**Ffigur 4-7 - Os ydych wedi ateb nac ydw neu'n ansicr i gwestiynau 6 a 7, dywedwch pam wrthym? Teimlad cyffredinol**




Y themâu mwyaf cyffredin oedd bod angen cyfyngiadau cyflymder ar y cynigion (13% o'r ymatebion) ac y byddai'r ffordd gerbydau'n cael ei gwneud yn rhy gul gan yr llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig (13% o'r ymatebion). Roedd pryderon diogelwch (9%) ac ailgyfeirio yn achosi traffig fynd i fannau eraill oherwydd dargyfeiriad cerbydau nwyddau trwm (9%) hefyd yn themâu cyffredin.

Nododd ymatebwyr fod cyflymder traffig ar hyd Kiln Park Road yn rhy uchel ar hyn o bryd, heb unrhyw orfodaeth swyddogol, sy'n creu perygl i drigolion lleol ac ymwelwyr sy'n ceisio teithio ar hyd, a chroesi'r ffordd. Roedd sylwadau'n nodi y gellid gosod camerâu cyflymder sefydlog, mannau croesi rheoledig neu dwmpathau cyflymder i leihau cyflymder traffig a chaniatáu ar gyfer croesi diogel i gerddwyr a beicwyr.

Roedd pryderon diogelwch yn ymwneud â chael gwared ar y llwybr troed a'i gysylltiadau ag arosfannau bysiau ysgol ar Kiln Park Road, diffyg gwelededd o'r llwybr a awgrymwyd a'r cynnydd mawr mewn cerbydau nwyddau trwm ar hyd Kiln Park Road. Nodwyd bod y cynnydd mewn cerbydau mwy yn fygythiad i ddiogelwch cerddwyr sy'n gorfod croesi'r ffordd i gyrraedd y llwybr arfaethedig, ac roedd y llwybro y tu ôl i wrychoedd yn bryder i rai ymatebwyr, yn enwedig i blant sy'n defnyddio'r llwybr ar eu pen eu hunain neu yn y tywyllwch. Rhaid ystyried y diffyg gwelededd a golau ar y llwybr arfaethedig a chroesfan ddiogel i'r mynediad iddo yn ei ddyluniad.

Derbyniodd yr awgrym i ailgyfeirio cerbydau nwyddau trwm nifer o sylwadau, gan gynnwys bod y ffordd yn rhy gul i gerbydau mwy. Roedd awgrymiadau'n nodi llwybrau eraill i gerbydau nwyddau trwm eu dilyn, mewn perthynas â'r angen i osgoi mynd heibio Ysgol Gynradd Tredeml. Dywedodd ymatebwyr hefyd y byddai gosod cynlluniau teithio llesol yn culhau'r ffordd gerbydau ymhellach, gan achosi rhagor o dagfeydd o amgylch Arberth. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid gosod llinellau melyn dwbl, yn enwedig ar St James Street a Jesse Road, i gyfyngu ar barcio sy'n achosi rhwystr i gerbydau ar hyn o bryd, yn enwedig cerbydau mwy.

Ffigur 4-8 yn dangos pa mor fuddiol, ym marn ymatebwyr, fydd cysylltiad Kiln Park Road â'r orsaf drenau. Gofynnwyd i ymatebwyr raddio (o 1-5) pa mor fuddiol fydd y cysylltiad hwn, gyda phob sgôr wedi'i dosbarthu fel a ganlyn:

- 1 - Ddim yn fuddiol o gwbl.
- 2 - Ddim yn fuddiol iawn.
- 3 – Niwtral.
- 4 - Buddiol.
- 5 - Buddiol iawn.

**Ffigur 4-8 - Yn eich barn chi, pa mor fuddiol fydd y cysylltiad â'r orsaf drenau?**




Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 55% yn dewis 'Buddiol iawn' neu 'Buddiol', o gymharu â 31% yn dewis 'Ddim yn fuddiol iawn' neu 'Ddim yn fuddiol o gwbl'. Dewisodd 15% ymateb niwtral. Mae hyn yn dangos bod awydd am gysylltiad â'r orsaf drenau.

### 4.1.3 Llwybr aml-ddefnyddwyr o Arberth i Hwlffordd

Mae Ffigur 4-9 yn dangos yr ymatebion i'r cwestiynau oedd yn gofyn:

- A fyddai'r llwybr aml-ddefnyddwyr hwn yn eich annog i gymudo drwy ddulliau teithio llesol?
- A fyddai'r llwybr aml-ddefnyddwyr hwn yn eich annog i gerdded neu feicio at ddibenion hamdden yn amlach?

Oherwydd tebygrwydd yr ymatebion i ddau gwestiwn ynghylch annog newid modd, mae'r ymatebion wedi'u cyfuno. Derbyniwyd cyfanswm o 127 o ymatebion ar draws y ddau gwestiwn.

**Ffigur 4-9 - A fyddai'r llwybr aml-ddefnyddwyr hwn yn eich annog i gerdded neu feicio at ddibenion cymudo/hamdden yn amlach?**




Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 52% o'r ymatebion i'r ddau gwestiwn yn ateb 'ydw', o gymharu â 37% yn ateb 'nac ydw'. Roedd 11% o ymatebwyr yn 'ansicr' ynghylch y ddau ddatganiad. Mae hyn yn dangos bod potensial i'r llwybr aml-ddefnyddwyr hwn greu newid moddol.

Mae Ffigur 4-10 yn dangos ymatebion i'r cwestiwn "Ydych chi'n meddwl y byddai'r cysylltiadau arfaethedig â maes parcio Town Moor yn gwella hygyrchedd i bobl ag anghenion symudedd?".

**Ffigur 4-10 - Ydych chi'n meddwl y byddai'r cysylltiadau arfaethedig â maes parcio Town Moor yn gwella hygyrchedd i bobl ag anghenion symudedd?**




Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 59% o’r ymatebion yn ateb ‘ydw’, o gymharu â 24% yn ateb ‘nac ydw’. Roedd 17% o'r ymatebwyr yn 'ansicr' ar y cwestiwn. Mae hyn yn dangos bod cytundeb cyffredinol y bydd cysylltiadau maes parcio Town Moor yn gwella hygyrchedd.

Mae Ffigur 4-11 yn dangos ymatebion i’r cwestiwn “A hoffech chi weld cyfleusterau storio beiciau ychwanegol ym maes parcio Town Moor?”.

**Ffigur 4-11 - Hoffech chi weld cyfleusterau storio beiciau ychwanegol ym maes parcio Town Moor?**




Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 69% o’r ymatebion yn ateb ‘ydw’, o gymharu â 31% yn ateb ‘nac ydw’. Mae hyn yn dangos bod cytundeb cyffredinol y dylid cael storfa feiciau ychwanegol ym maes parcio Town Moor.

Yn dilyn ymlaen o'r cwestiynau blaenorol ar lwybr aml-ddefnyddiwr Arberth i Hwlffordd, rhoddwyd cyfle i ymatebwyr a atebodd ‘nac ydw’ neu 'ansicr' i unrhyw gwestiwn adael ymatebion testun rhydd. Mae Ffigur 4-12 yn dangos themâu'r ymatebion testun rhydd a dderbyniwyd.

**Ffigur 4-12 - Os ydych wedi ateb nac ydw neu'n ansicr i gwestiynau 10-13, dywedwch pam wrthym?**




Y themâu mwyaf cyffredin oedd bod ymatebwyr eisiau mwy o wybodaeth cyn y gallent wneud dyfarniad (20% o'r ymatebion) ac y byddai'r ffordd gerbydau'n cael ei gwneud yn rhy gul gan y llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig (13% o'r ymatebion). Roedd y themâu canlynol hefyd yn boblogaidd; bod y ffyrdd yn rhy beryglus i feicwyr (13%) a phryder nad oes angen newidiadau/mae hyn yn wastraff adnoddau (23% gyda'i gilydd).

Nododd ymatebwyr yr hoffent gael rhagor o wybodaeth am y llwybr rhwng Arberth a Hwlffordd a'i addasrwydd disgwyliedig i bob defnyddiwr, yn enwedig plant a marchogwyr. Nododd rhai ymatebwyr fod llwybrau beicio, ar hyn o bryd, yn enwedig llwybrau pellter hir, yn beryglus oherwydd traffig trwm a cherbydau mwy. Byddai llwybr beicio diogel, felly, yn annog newid moddol. Fodd bynnag, teimlai ymatebwyr eraill y byddai'r llwybr rhwng Arberth a Hwlffordd yn gostus, ac na fyddai digon o ddefnyddwyr i gyfiawnhau'r costau. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid gwario'r arian rhywle arall e.e. ar wella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rhwng y ddau leoliad.

Cafodd y gwrthdaro rhwng defnyddwyr, yn enwedig rhwng cerddwyr, beicwyr a sgwteri symudedd, ei nodi fel problem bosibl ar hyd y llwybr, gyda'r ymatebwyr yn teimlo y byddai hyn yn creu risg diogelwch i'r holl ddefnyddwyr.

O ran parcio beiciau ym maes parcio Town Moor, nododd nifer of ymatebwyr na ddylai unrhyw storfa beiciau newydd arwain at golled llefydd parcio presennol i geir.

Mae Ffigur 4-13 yn dangos pa mor fuddiol fyddai'r cysylltiadau arfaethedig â maes parcio Town Moor ym marn yr ymatebwyr. Gofynnwyd i ymatebwyr raddio o 1-5 pa mor fuddiol fyddai'r cysylltiad hwn, gyda phob sgôr wedi categoreiddio fel a ganlyn:

- 1 - Ddim yn fuddiol o gwbl.
- 2 - Ddim yn fuddiol iawn.
- 3 – Niwtral.

- 4 - Buddiol.
- 5 - Buddiol iawn.

**Ffigur 4-13 - Yn eich barn chi, pa mor fuddiol fyddai'r cysylltiadau arfaethedig â maes parcio Town Moor?**




Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 55% yn dewis 'Buddiol iawn' neu 'Fuddiol', o gymharu â 22% yn dewis 'Ddim yn fuddiol iawn' neu 'Ddim yn fuddiol o gwbl'. Dewisodd 23% ymateb ‘Niwtral’. Mae hyn yn dangos bod awydd am gysylltiad â maes parcio Town Moor.

Yn ogystal , mae Ffigur 4-14 yn dangos pa mor ddigonol yw'r cysylltiadau presennol â maes parcio Town Moor ym marn yr ymatebwyr. Gofynnwyd i ymatebwyr raddio o 1-5 pa mor ddigonol yw’r cysylltiadau presennol, gyda phob sgôr wedi’i chategoreiddio fel a ganlyn:

- 1 – Ddim yn ddigonol o gwbl.
- 2 – Ddim yn ddigonol iawn.
- 3 – Niwtral.
- 4 – Eithaf digonol.
- 5 – Digonol iawn.

**Ffigur 4-14 - Yn eich barn chi, pa mor ddigonol yw'r cysylltiadau presennol i faes parcio Town Moor?**




Roedd yr ymatebion yn gymysg, gyda 28% yn dewis 'Digonol iawn' neu 'Eithaf digonol', o gymharu â 34% yn dewis 'Ddim yn ddigonol' neu 'Ddim yn ddigonol o gwbl'. Dewisodd 37% ymateb 'Niwtral'. Mae hyn yn dangos bod angen gwella'r cysylltiadau i faes parcio Town Moor.

Mae Ffigur 4-15 yn dangos themâu ymatebion (testun rhydd) a amlygwyd gan ymatebwyr pan ofynnwyd iddynt a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud.

**Ffigur 4-15 - A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar unrhyw un o'r uchod?**




Y themâu mwyaf cyffredin oedd ymatebwyr yn awgrymu gwelliannau eraill i lwybrau (17% o'r ymatebion) ac angen mwy o wybodaeth i wneud dyfarniad (13% o'r ymatebion). Roedd y themâu canlynol hefyd yn boblogaidd; mae'r ffyrdd yn rhy beryglus i feicwyr (10%) ac nid oes angen newidiadau/mae hyn yn wastraff adnoddau (cyfunol 17%). Amlygodd 10% o'r sylwadau ychwanegol eu cefnogaeth i'r cynigion. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd cyfathrebu, sut bydd y llwybr yn gwella diogelwch beicwyr a pham y dewiswyd y llwybr, yn ystod camau nesaf y prosiect.

Roedd sylwadau am welliannau i lwybrau eraill yn canolbwyntio ar yr angen i wella'r ardal leol yn Arberth, yn hytrach na chanolbwyntio ar brosiectau pellter hir. Roedd awgrymiadau am welliannau i lwybrau eraill yn cynnwys llwybrau troed newydd i ganiatáu i gerddwyr o Princes Gate a Thafarnspite gerdded i Arberth. Awgrymwyd hefyd system unffordd ledled Arberth i leddfu effaith traffig ledled y dref.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y ffyrdd ar hyn o bryd yn rhy beryglus i gerddwyr a beicwyr, gan gefnogi'r opsiwn am welliannau i faes parcio Town Moor. Roedd nifer o sylwadau'n awgrymu y byddai llwybr diogel penodedig i gerddwyr yn cael ei groesawu.

Roedd 10% o'r sylwadau yn dangos cefnogaeth i'r cynigion. Roedd sylwadau'n nodi'r angen, o safbwynt amgylcheddol, i leihau effaith traffig cerbydau, a'r angen am fwy o lwybrau diogel heb draffig i gerddwyr a beicwyr. Roedd sylwadau hefyd yn nodi'r angen am waith cynnal a chadw parhaus ar y llwybrau arfaethedig, ynghyd â digon o oleuadau ac arwyddion. O ran cyfleusterau marchogaeth, nododd un ymatebwr y byddai cyfleusterau 'hitching' ar hyd y llwybr rhwng Arberth a Hwlffordd o fudd i farchogwyr.

### 4.1.4 Jesse Road

Mae Ffigur 4-16 yn dangos pa mor fuddiol ym marn ymatebwyr yw'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i wella'r amodau ar gyfer cerdded, beicio a hygyrchedd ar Jesse Road. Roedd dull graddol o wneud y gwaith ar adeg yr ymgynghoriad, ac roedd rhai ohonynt yn yr ardal wedi'u cwblhau. Gofynnwyd i ymatebwyr raddio o 1-5 pa mor fuddiol fu'r gweithiau hyn, gyda phob sgôr wedi'i chategoreiddio fel a ganlyn:

- 1 - Ddim yn fuddiol o gwbl.
- 2 - Ddim yn fuddiol iawn.
- 3 – Niwtral.
- 4 - Buddiol.
- 5 - Buddiol iawn.

**Ffigur 4-16 - Beth yw eich barn am y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i wella'r amodau ar gyfer cerdded, beicio a hygyrchedd yn yr ardal hon?**




Roedd yr ymatebion yn gymysg, gyda 38% yn dewis 'Buddiol iawn' neu 'Buddiol', o gymharu â 23% yn dewis 'Ddim yn fuddiol iawn' neu 'Ddim yn fuddiol o gwbl'. Dewisodd 38% yr ymateb 'Niwtral'. Mae hyn yn dangos bod gwersi i'w dysgu o waith Jesse Road.

Mae Ffigur 4-17 yn dangos ymatebion i'r cwestiwn "Yn eich barn chi a yw'r newidiadau (Jesse Road) wedi gwella hygyrchedd i'r ysgol?".

**Ffigur 4-17 - Yn eich barn chi, a yw'r newidiadau wedi gwella hygyrchedd i'r ysgol?**




Roedd yr ymatebion yn gymysg, gyda 47% yn ateb ‘ydw’, o gymharu â 27% yn ateb ‘nac ydw’. Roedd 27% o'r ymatebwyr yn 'ansicr' ar y cwestiwn. Mae hyn yn dangos nad oes cytundeb cyffredinol o ran effeithiolrwydd y newidiadau ar Jesse Road.

Mae Ffigur 4-18 yn dangos themâu ymatebion (testun rhydd) a amlygwyd gan ymatebwyr pan ofynnwyd iddynt pam eu bod wedi ymateb ‘nac ydw’ neu 'ansicr' i'r cwestiwn uchod ynglŷn â hygyrchedd.

**Ffigur 4-18 - Os ydych wedi ateb nac ydw neu'n ansicr, dywedwch pam wrthym?**




Y themâu mwyaf cyffredin oedd ymatebwyr yn awgrymu nad oedd gwaith Jesse Road wedi gwella'r llwybr (33% o'r ymatebion) ac nad oedd y gwaith yn effeithio arnynt (21% o'r ymatebion). Er bod 33% yn gyfran fawr o'r sylwadau, sy'n awgrymu nad yw gwaith Jesse Road wedi gwella'r llwybr, mae'n werth nodi mai dim ond 24 o ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn. Mae'n golygu nad yw'r themâu hyn yn debygol o fod yn gynrychioliadol o farn yr holl ymatebwyr na thrigolion Jesse Road, ac nid yw'r sylwadau'n adlewyrchu'r cynllun terfynol am nad yw'r gwaith wedi'i chwblhau. Mae hefyd yn werth nodi bod yr ymatebion uchod gan bobl a ddewisodd "yn erbyn" neu "ansicr" mewn cwestiynau blaenorol ac, felly, maent yn fwy tebygol o gael barn negyddol o'r cynigion.

Roedd y rheini a ddywedodd nad oedd y gwaith wedi gwella hygyrchedd yn teimlo bod y llwybrau cerdded ehangach wedi lleihau'r lle ar y ffordd ar gyfer defnyddwyr eraill, gan ei gwneud yn beryglus teithio ar hyd Heol Jesse mewn cerbyd modur.. Nododd un ymateb bod y cylchfan yn beryglus i gerbydau lled a hir (e.e. tractor neu lori) oherwydd bod cerbydau'n gorfod gwneud troeon sydyn.

Teimlai rhai ymatebwyr fod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau nad oedd cerbydau'n parcio ar y ffordd na'r palmant ger yr ysgol, ac y gellid bod wedi gwella'r dyluniad gyda borderi gwyrdd ar y llwybr troed.

Yn bennaf, roedd yr ymatebwyr nad oedd wedi'u heffeithio gan y cynigion (21%) heb blentyn neu berthynas oedd yn mynychu'r ysgol.

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr darparu sylwadau pellach ar y gwaith ar Jesse Road.  Mae Ffigur 4-19 yn dangos y themâu pennaf o'r sylwadau pellach a dderbyniwyd.

**Ffigur 4-19 - A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ynghylch y gwaith sydd wedi'i wneud ar Jesse Road? Teimlad cyffredinol**




Dywedodd 19% fod y gwaith yn wastraff adnoddau, tra bod 12% yn cefnogi'r gwaith. Dywedodd 19% y byddent yn aros nes bod y gwaith wedi'i gwblhau i ddyfarnu. Mae'n werth nodi mai dim ond 16 o ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn. Mae hyn yn golygu bod y themâu hyn yn annhebygol o fod yn gynrychioliadol o farn yr ymatebwyr na thrigolion Jesse Road.

Roedd sylwadau'n awgrymu y gellid gwneud gwelliannau i ddiogelwch drwy wneud Jesse Road yn unffordd a defnyddio llinellau melyn dwbl i gyfyngu ar barcio ar ei hyd, tra bod eraill yn teimlo bod y llwybr troed presennol yn ddigonol, ac y gallai'r swm a wariwyd ar y gwaith a wnaed hyd yma fod wedi'i wario'n well mewn mannau eraill yn Arberth.

### 4.1.5 Gwybodaeth ddemograffig

Ffigur 4-20 yn dangos demograffeg oedran ymatebwyr i'r arolwg. Atebodd pob un o'r 64 o ymatebwyr i'r arolwg y cwestiwn hwn.

**Ffigur 4-20 - Pa mor hen ydych chi?**




Mae ystod eang o oedrannau, gydag ymatebion gan bobl o dan 25 oed a thros 75 oed. Fodd bynnag, mae'r ymatebion wedi'u pwysoli tuag at bobl dros 55 oed (59%) o gymharu â'r rhai dan 55 (36%), gyda 5% yn ffafrio peidio â dweud. Nid yw hyn yn gwbl gynrychioliadol o boblogaeth Arberth lle mae pobl dros 55 oed yn cyfrif am 40% yn unig o'r boblogaeth[1].

[1] Adeiladu proffil ardal wedi'i deilwra - Cyfrifiad 2021, SYG

# 5. Casgliadau o ddadansoddiad

Mae Tabl 5-1 yn dangos crynodeb o gasgliadau dadansoddiad yr arolwg a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio camau nesaf y llwybr teithio llesol arfaethedig hyn.

**Tabl 5-1 - Casgliadau o ymatebion i'r arolwg**

| Adran arolwg | Themâu allweddol |
|---|---|
| Gwelliannau teithio llesol yn Arberth | • Mae'r ymatebwyr yn cefnogi'r gwelliannau teithio llesol arfaethedig ar y cyfan, ac yn credu y byddant yn gwella'r gymuned leol gyda 61% o'r ymatebion i'r ddau gwestiwn yn ateb 'ydw', o gymharu â 32% yn ateb 'nac ydw'. Roedd 7% o ymatebwyr yn ansicr ar y ddau ddatganiad (Ffigur 4-1).<br>• Roedd tua 2/3 (66%) o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'u cysylltiadau rhwydwaith teithio llesol ehangach (Ffigur 4-2). Er i'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr nodi 'ydw', mae'n amlwg bod cyfle i hybu mwy o ymwybyddiaeth o'r rhwydwaith teithio llesol ehangach yn yr ardal.<br>• Dim ond 21% a ddywedodd 'hyderus iawn' neu 'hyderus' o gymharu â 49% a ddywedodd 'ddim yn hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl' pan ofynnwyd iddynt ba mor hyderus yr oeddent yn beicio yn Arberth (Ffigur 4-3). Mae hyn yn dangos bod angen llwybr teithio llesol diogel, hygyrch rhwng yn Arberth.<br>• Yn gyffredinol, gyrru oedd y dull mwyaf poblogaidd o bell ffordd i deithio i'r ysgol/gwaith yn Arberth, sef 56% o'r ymatebion. Mae moddau llesol a dulliau 'eraill' yn ffurfio cyfran sylweddol o deithiau, gyda cherdded a beicio yn cyfrif am 20% o'r ymatebion (16% yn cerdded, 4% yn beicio), yr un fath â 'dulliau eraill' (Ffigur 4-4). Mae hyn yn amlygu'r potensial i foddau teithio llesol i wella ymhellach, gan fod galw amlwg. |
| Kiln Park Road | • Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 65% yn dweud eu bod yn cefnogi'r cynnig, o gymharu â 25% yn dweud nad ydynt. Roedd 10% o ymatebwyr yn ansicr (Ffigur 4-5). Mae hyn yn dangos yr awydd am lwybr cyd-ddefnyddio newydd, gwell ar hyd Kiln Park Road.<br>• O ran a oedd ymatebwyr yn cefnogi dargyfeirio cerbydau nwyddau trwm ar hyd Kiln Park Road i osgoi canol tref Arberth, roedd yr ymatebion yn gymysg. Dywedodd 48% eu bod yn cefnogi'r cynnig, o gymharu â 40% yn dweud nad ydyn nhw. Roedd 13% o ymatebwyr yn ansicr (Ffigur 4-6).<br>• Y themâu mwyaf cyffredin i'r rhesymau pam y nododd ymatebwyr 'nac ydw' neu 'ansicr' i'r ddau gwestiwn uchod oedd bod angen cyfyngiadau cyflymder ar y cynigion (13% o'r ymatebion) ac y byddai'r ffordd yn cael ei gwneud yn rhy gul gan y llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig (13% o'r ymatebion). Roedd pryderon diogelwch (9%) ac ailgyfeirio yn achosi traffig i fannau eraill oherwydd y dargyfeiriad cerbydau nwyddau trwm (9%) hefyd yn themâu poblogaidd (Ffigur 4-7).<br>• I ba un a oedd ymatebwyr yn meddwl y byddai cysylltiad â'r orsaf drenau yn fuddiol, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 55% yn dewis 'Buddiol iawn' neu 'Buddiol', o gymharu â 31% yn dewis 'Ddim yn fuddiol iawn' neu 'Ddim yn fuddiol o gwbl'. Dewisodd 15% ymateb niwtral (<br>• Ffigur 4-8). Mae hyn yn dangos bod awydd am gysylltiad â'r orsaf trên. |
| Llwybr aml-ddefnyddwyr o Arberth i Hwlffordd | • Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan a oedd ymatebwyr yn meddwl y byddai'r llwybr aml-ddefnyddwyr yn annog cymudo, a theithiau hamdden trwy ddulliau llesol, gyda 52% o'r ymatebion i'r ddau gwestiwn yn ateb 'ydw', o gymharu â 37% yn ateb 'nac ydw'. Roedd 11% o ymatebwyr yn ansicr ar y ddau ddatganiad (Ffigur 4-9). Mae hyn yn dangos bod potensial i'r llwybr aml-ddefnyddwyr hwn greu newid moddol.<br>• Atebodd 59% o'r ymatebion 'ydw', i gymharu â 24% yn ateb 'nac ydw' pan ofynnwyd a fyddai cysylltiadau maes parcio Town Moor yn gwella hygyrchedd. Roedd 17% o ymatebwyr yn ansicr |

| | |
|---|---|
| | ar gwestiwn (Ffigur 4-10). Mae hyn yn dangos bod cytundeb cyffredinol y bydd cysylltiadau maes parcio Town Moor yn gwella hygyrchedd.<br>• Mae cytundeb cyffredinol y dylid cael storfa feiciau ychwanegol ym maes parcio Town Moor, gyda 69% o ymatebwyr yn ateb ‘ydw’ i’r cwestiwn hwn (Ffigur 4-11). Y rhesymau mwyaf cyffredin dros ateb ‘nac ydw’ neu ‘ansicr’ i’r tri chwestiwn uchod oedd: eisiau mwy o wybodaeth cyn y gallent wneud dyfarniad (20% o’r ymatebion) ac y byddai’r ffordd gerbydau’n cael ei gwneud yn rhy gul gan y llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig (13% o’r ymatebion). Roedd y ffyrdd yn rhy beryglus i feicwyr (13%) a phryder nad oes angen newidiadau/mae hyn yn wastraff adnoddau (23% gyda'i gilydd) hefyd yn themâu poblogaidd (Ffigur 4-12).<br>• Mae awydd ac angen am well cysylltiad â maes parcio Town Moor. Dewisodd 55% 'Buddiol iawn' neu 'Buddiol’, i gymharu â 22% a ddewisodd 'Ddim yn fuddiol iawn' neu 'Ddim yn fuddiol o gwbl' pan ofynnwyd pa mor fuddiol fyddai cysylltiad maes parcio Town Moor (Ffigur 4-13). Yn ogystal, dewisodd 28% 'Digonol iawn' neu 'Eithaf digonol', o gymharu â 34% a ddewisodd 'Ddim yn ddigonol' neu 'Ddim yn ddigonol o gwbl' pan ofynnwyd pa mor ddigonol yw'r cysylltiad presennol â maes parcio Town Moor (Ffigur 4-14).<br>• Y themâu mwyaf cyffredin pan ofynnwyd am sylwadau pellach oedd ymatebwyr yn awgrymu gwelliannau eraill i lwybrau (17% o’r ymatebion) ac angen mwy o wybodaeth i wneud dyfarniad (13% o’r ymatebion). Roedd y ffyrdd yn rhy beryglus i feicwyr (10%) a phryder nad oes angen newidiadau/mae hyn yn wastraff adnoddau (cyfunol 17%) hefyd yn themâu poblogaidd. Amlygodd 10% o'r sylwadau ychwanegol eu cefnogaeth i'r cynigion (Ffigur 4-15). Mae hyn yn dangos bod cyfathrebu sut y bydd y llwybr yn gwella diogelwch beicwyr a pham y dewiswyd y llwybr yn bwysig ar gyfer camau nesaf y prosiect. |
| Jesse Road | • Dewisodd 38% 'Buddiol iawn' neu 'Buddiol', i gymharu â 23% a ddewisodd 'Ddim yn fuddiol iawn' neu 'Ddim yn fuddiol o gwbl' pan ofynnwyd pa mor fuddiol y bu'r gwaith presennol ar Jesse Road (Ffigur 4-16). Mae hyn yn dangos bod gwersi i'w dysgu, yn ogystal ag arferion i'w cymhwyso i waith yn y dyfodol yn seiliedig ar waith Jesse Road.<br>• Pan ofynnwyd a yw newidiadau Jesse Road wedi gwella hygyrchedd i'r ysgol, atebodd 47% o'r ymatebion 'ydw', o gymharu â 27% a atebodd ‘nac ydw’. Roedd 27% o ymatebwyr yn ansicr ar gwestiwn (Ffigur 4-17).<br>• Y themâu mwyaf cyffredin o ymatebion a ddywedodd ‘nac ydw’ neu ‘ansicr’ i’r cwestiwn uchod oedd awgrymiadau nad oedd gwaith Jesse Road wedi gwella’r llwybr (33% o’r ymatebion) ac nad oedd y gwaith yn effeithio arnynt (21% o’r ymatebion) (Ffigur 4-18). Er bod 33% yn gyfran fawr o’r sylwadau, sy’n awgrymu nad yw gwaith Jesse Road wedi gwella’r llwybr, mae’n werth nodi mai dim ond 24 o ymatebion a dderbyniwyd i’r cwestiwn hwn. Mae hyn yn golygu bod y themâu hyn yn annhebygol o fod yn gwbl gynrychioliadol o farn holl ymatebwyr yr arolwg, na holl drigolion Jesse Road.<br>• Ffigur 4-19 yn dangos y prif themâu ar gyfer unrhyw sylwadau pellach ar waith Jesse Road. Dywedodd 19% fod y gwaith yn wastraff adnoddau, tra dywedodd 12% eu bod yn cefnogi'r gwaith. Dywedodd 19% y byddent yn aros nes bod y gwaith wedi'i gwblhau i ddyfarnu. Mae’n werth nodi mai dim ond 16 o ymatebion a dderbyniwyd i’r cwestiwn hwn. Mae hyn yn golygu bod y themâu hyn yn annhebygol o fod yn gynrychiolydd o farn yr ymatebwyr na thrigolion Jesse Road. |
| Gwybodaeth ddemograffig | • Mae ystod eang o oedrannau, gydag ymatebion gan bobl o dan 25 oed a thros 75 oed. Fodd bynnag, mae’r ymatebion wedi’u pwysoli tuag at bobl dros 55 oed (59%) o gymharu â’r rhai dan 55 (36%), gyda 5% yn ffafrio peidio â dweud (Ffigur 4-20). Nid yw hyn yn gwbl gynrychiolydd o boblogaeth St Arberth lle mae pobl dros 55 oed yn cyfrif am 40% yn unig o'r boblogaeth[1]. |

# 6. Camau nesaf

Pwrpas y rownd hon o ymgysylltu oedd ymgysylltu'n ffurfiol â'r gymuned leol ar y llwybrau arfaethedig ar gyfer gwelliannau teithio llesol, fel rhan o'r ymgysylltu ehangach ar gyfer gwelliannau teithio llesol ledled Sir Benfro. Gellir defnyddio'r crynodeb o'r adroddiad ymgysylltu hwn i gyfrannu at fersiynau pellach o'r dyluniadau a gellir ei ddefnyddio i helpu i wneud penderfyniadau ar aliniadau dewisol i symud y prosiect hwn ymlaen i'r cam dylunio manwl.

AtkinsRéalis

**AtkinsRéalis UK Limited**
The Hub
500 Park Avenue
Aztec West
Bristol
BS32 4RZ

Ffôn: +44 (0)1454 662000
Ffacs: +44 (0)1454 663333

© AtkinsRéalis UK Limited ac eithrio lle nodir yn wahanol